


Arweiniad i Ymgeiswyr

Polisiau a Gweithdrefnau Diogelu



Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, ni waeth pwy ydynt neu beth yw eu hamgylchiadau. Mae'n rhaid i grwpiau cymunedol o bob maint - beth bynnag eu cyfansoddiad - fod yn lleoedd diogel yr ymddiriedir ynddynt. Mae gan bawb gyfrifoldeb dros ddiogelu - mater i bawb ydyw.

Os yw eich sefydliad yn gweithio gyda phlant neu bobl ifainc neu gydag oedolion sydd mewn perygl mewn sefyllfaoedd bregus, hyd yn oed os na fydd hyn ond yn digwydd yn anaml, mae'n rhaid bod ganddo bolisi a gweithdrefn diogelu cyfoes.

- Mae polisi'n ddatganiad lefel uchel am sut y byddwch yn ymdrin â mater pwysig, gan ddisgrifio pam mae'n bwysig
- Mae gweithdrefn yn set o gyfarwyddiadau fesul cam am sut yn union y caiff y mater ei reoli a chan bwy.

Egwyddorion Cyffredinol

- Dylai digwyddiadau, gweithgareddau a rhaglenni cymunedol i gyd ddigwydd mewn amgylchedd diogel yr ymddiriedir ynddo sy'n diogelu pawb a fydd yn cymryd rhan - buddiolwyr, staff a gwirfoddolwyr.
- Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant neu bobl ifainc neu gydag oedolion mewn perygl mewn sefyllfaoedd bregus flaenoriaethu diogelu, fel ei fod yn ddiogel i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gamu 'mlaen ac adrodd am ddigwyddiadau a phryderon, gan deimlo'n hyderus y byddant yn cael eu trin yn sensitif ac yn briodol.
- Dylai fod gan bob sefydliad bolisiau, gweithdrefnau a mesurau diogelu i amddiffyn pobl, gan egluro'r ymrwymiad i ddiogelu a disgrifio'n glir y rôl sydd gan yr holl wirfoddolwyr a staff wrth ddiogelu pobl rhag niwed. Hefyd, dylent ddisgrifio sut y caiff staff a gwirfoddolwyr newydd eu gwirio a rhoi enw a manylion cyswllt Swyddog Diogelu'r grŵp.
- Dylai polisiau a gweithdrefnau egluro sut caiff digwyddiadau a honiadau eu trin, gan gynnwys sut i adrodd am a chofnodi unrhyw bryderon (a sut y bydd cofnodion yn cydymffurfio â gofynion diogelu data GDPR), ac adrodd i'r awdurdodau perthnasol.
- Os ydych yn dibynnu ar bolisi trosgynnol eich corff llywodraethu, mae'n rhaid i chi sicrhau o hyd ei fod yn berthnasol i'ch grŵp ac amgylchiadau unigol, gan gynnwys manylion cyswllt lleol.

- Dylai pawb – aelodau, gwirfoddolwyr, staff, rhieni a gofalwyr - fod yn gyfarwydd â'r polisi a gwybod ble y gallant ddod o hyd iddo a'i ddarllen.

Beth i'w ystyried cyn ysgrifennu eich polisi a gweithdrefn

- Sut ydych chi'n gwirio staff a gwirfoddolwyr (rhai presennol a rhai newydd)?
- Sut dylai rhywun godi pryder?
- Sut fyddwch chi'n ymateb i bryderon neu honiadau?
- Sut mae eich polisi diogelu'n cysylltu â pholisïau a gweithdrefnau eraill?
- Pa hyfforddiant y mae angen i chi ei gynnig i staff a gwirfoddolwyr?
- Beth fyddwch yn ei wneud i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'ch polisi?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau bod unrhyw gofnodion am ddigwyddiad yn cydymffurfio â GDPR?

Beth i'w gynnwys mewn datganiad polisi diogelu

Dylai'r datganiad ddisgrifio ymrwymiad clir eich mudiad i ddiogelu eich buddiolwyr, gwirfoddolwyr a staff i gyd rhag pob ffurf ar gamdriniaeth, gan gynnwys niwed corfforol, emosiynol a rhywiol.

Beth i'w gynnwys mewn gweithdrefn ddiogelu

- Arweiniad ar beth i'w wneud os ceir honiad neu ddigwyddiad, neu os codir pryderon am les plentyn neu person-mewn-perygl neu mewn sefyllfa fregus.
- Pwy y dylai pobl gysylltu â nhw os bydd digwyddiad - enw a manylion cyswllt eich Swyddog Diogelu a chysylltiadau'r awdurdod statudol.
- Diffiniadau o gam-drin (ni waeth p'un ai'n emosiynol, corfforol neu'n seicolegol), niwed ac esgeulustod - a sut i adnabod yr arwyddion
- Sut y caiff pryderon am ymddygiad staff neu wirfoddolwyr eu rheoli
- Gweithdrefnau ar gyfer cofnodi honiadau a digwyddiadau, a'r camau disgyblu a gaiff eu cymryd os nad yw'r rhain yn cael eu dilyn
- Pwy sy'n gyfrifol am gofnodi cam-drin neu niwed - a sicrhau bod cofnodion yn cydymffurfio â GDPR.
- Cyngor ymarferol i staff a gwirfoddolwyr ar yr hyn y dylid ac na ddylid ei wneud o fewn y sefydliad.

Nid rhestr hollgynhwysol o'r meysydd y dylech ymdrin â nhw mo hon. Dylai eich polisi diogelu:

- gael ei deilwra i'ch sefydliad a'i weithgareddau
- cynnwys y dyddiad y cafodd ei gymeradwyo
- cynnwys y dyddiad y caiff ei adolygu.

Gwnewch yn siŵr fod pawb yn gwybod am eich polisi ac yn gyfarwydd ag ef

Beth bynnag fo maint eich sefydliad, dylech sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn gyfarwydd â'ch polisi diogelu. Fel isafswm, dylid darparu hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Diogelu a'u dirprwyon.

Mae'n syniad da cynnwys y polisi fel ran o'u hymgynefino a hyfforddiant. Gwnewch gofnod eu bod wedi'i weld - er enghraifft, gallech ofyn iddynt lofnodi datganiad i ddweud eu bod wedi'i ddarllen a'i ddeall.

Fel pob gweithdrefn sefydliadol arall, adolygwch ef yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn addas i'r diben o hyd. Cadwch gofnod o'r tro diwethaf y gwiriwyd y polisi.

Cymorth a Chyngor

Rhondda Cynon Taf

Os oes gennych unrhyw bryderon neu mae angen i chi adrodd am ddigwyddiad, cysylltwch â'r Both Diogelu Aml-asiantaeth (MASH) – y pwynt cyswllt sengl ar gyfer yr holl faterion diogelu.

PLANT: 01443 742928 / childrens.mash@rctcbc.gcsx.gov.uk

OEDOLION DIAMDDIFFYN: 01443 742940 / adultsatrisk@rctcbc.gcsx.gov.uk

Castell-nedd Port Talbot

PLANT: 01639 685717 (y tu allan i oriau 01639 895455)

OEDOLION DIAMDDIFFYN: 01639 686802 (y tu allan i oriau 01639 895455)

Ffurfiwyd Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin yn 2013 gan gwmpasu ardaloedd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae ganddynt gyfrifoldeb a rennir i sicrhau bod oedolion mewn perygl o niwed yn rhanbarth Bae'r Gorllewin yn cael eu diogelu yn erbyn pob ffurf ar gam-drin trwy weithio ar y cyd i gadw oedolion yn ddiogel.

WCVA

Mae WCVA yn rheoli gwasanaeth diogelu ar gyfer sefydliadau trydydd sector yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl. Mae gan y wefan lawer o wybodaeth am ddatblygu polisiau ac arweiniad.

Bydd CGG Castell-nedd Port Talbot ac Interlink yn gallu rhoi cyngor ar ddatblygu polisiau hefyd.
